Teitl:	**Rhyddid Gwybodaeth**	
Maes Arfer / Busnes:	Rheoli Gwybodaeth	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Rheoli Gwybodaeth	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	26/10/09	
Adolygwyd Ddiwethaf:	31/07/19	
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF:	Gorffennaf 2022	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif y Fersiwn:	08	Prif Gwnstabl

CENHADAETH A GWELEDIGAETH HEDDLU DE CYMRU:

CADW DE CYMRU YN DDIOGEL

SICRHAU MAI NI YW'R GORAU AM DDEALL ANGHENION EIN CYMUNEDAU AC YMATEB IDDYNT

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

- Pwrpas y Canllawiau a Gweithdrefnau hyn yw rhoi gwybod i'r cyhoedd yn Ne Cymru sut i wneud cais Rhyddid Gwybodaeth a helpu personél Heddlu De Cymru i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

CANLLAWIAU:

- Mae pob agwedd ar y Canllawiau a Gweithdrefnau hyn yn orfodol, felly cyfeiriwch at y Weithdrefn/Llawlyfr

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

- DIM

GWEITHDREFN:

Sut i wneud cais Rhyddid Gwybodaeth:

Er mwyn gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i'r cyhoedd yn Ne Cymru ddilyn y rheolau canlynol:

- Rhaid gwneud cais ysgrifenedig;
- Rhaid cynnwys disgrifiad clir o'r wybodaeth dan sylw;
- Gellir gwneud cais unrhyw le yn y byd;
- Gall unrhyw unigolyn neu sefydliad wneud cais;
- Gellir gwneud cais drwy lythyr, ffacs neu e-bost;

Os hoffech chi gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth
Gallwch ysgrifennu llythyr at:
Swyddog Rhyddid Gwybodaeth
Pencadlys Heddlu De Cymru
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU

Gallwch hefyd ffonio'r tîm ar 01656 303444

E-bost: foi@south-wales.pnn.police.uk

- Rhaid i'r cais fod yn ddarllenadwy;
- Rhaid cynnwys enw'r ymgeisydd a chyfeiriad gohebu

Er mwyn cyflwyno cais dilys o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nid oes rhaid:

- Defnyddio ffurflen arbennig;
- Crybwyll y Ddeddf; neu
- Gyfeirio at 'Rhyddid Gwybodaeth' mewn unrhyw ffordd

Sut mae'n rhaid i adrannau ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth:

Er mwyn ymateb i gais am wybodaeth, mae'n rhaid i'r adran/personél sydd â'r wybodaeth wneud y canlynol:

- Rhoi'r wybodaeth briodol i'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth o fewn **10 diwrnod gwaith** neu hysbysu'r Tîm nad oes ganddo'r wybodaeth cyn gynted ag y daw hynny i'r amlwg.. Bydd angen y wybodaeth ar y Tîm Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amser hwn er mwyn llunio'r ymateb a'i anfon at yr ymgeisydd o fewn 20 diwrnod gwaith, a bennir gan y Rheoliadau.
- Darparu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth, pan fo'n briodol.
- Hysbysu'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth, cyn gynted ag y daw i'r amlwg, y bydd hi'n cymryd mwy na 18 awr i gasglu'r data/gwybodaeth. Mewn achosion o'r fath, gallwn gymhwyso eithriad A12 – Ffioedd
- Disgrifio fesul cam pam y byddai'n cymryd mwy na 18 awr i gasglu'r wybodaeth, gan fod yn rhaid trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeisydd
- Hysbysu'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth os oes unrhyw bryderon ynghylch rhyddhau'r wybodaeth a hysbysu'r Tîm am unrhyw 'NIWED' gwirioneddol a allai ddigwydd yn sgil rhyddhau'r wybodaeth. Gall y Tîm Rhyddid Gwybodaeth benderfynu wedyn a oes unrhyw eithriadau perthnasol.

Cliciwch yma i weld y Canllawiau llawn sy'n gysylltiedig â'r broses hon

GEIRIAU CHWILIO ALLWEDDOL:

- Rhyddid Gwybodaeth
- Cofnodion Datgelu

FFURFLENNI:

- DIM

DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

DEUNYDD CYFEIRIO:

- Llawlyfr ar y Weithdrefn Rhyddid Gwybodaeth
- Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APA) ar Reoli Gwybodaeth): https://www.app.college.police.uk/app-content/information-management/freedom-of-information/ https://www.app.college.police.uk/app-content/information-management/data-protection/
- Llawlyfr Cyfarwyddyd ACPO: http://www.south-wales.police.uk/more-about-us/your-right-to-information/foi/